# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Mike White | Adran Etholiadol: | Glandŵr |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd stryd misol yn y ward yng Nghanolfan Gymunedol Parc Llewellyn, ar 2il ddydd Sadwrn y mis a Chanolfan Gymunedol Parc Montana ar 3ydd dydd Sadwrn y mis. Roeddwn hefyd yn mynd am dro'n rheolaidd, lle cefais y cyfle i gwrdd ag etholwyr ac ymdrin â materion trwy roi gwybod i'r adran(nau) briodol/priodol amdanynt.

Roedd fy nghydweithiwr ward yn cynnal y cymorthfeydd yn yr Hafod a Phlasmarl ac roedd hefyd yn mynd am dro yn y ward.

Ar ôl lobïo Llywodraeth Cymru, mae'n bleser gennyf ddweud ei bod wedi darparu arian i gyflwyno Dechrau'n Deg yn Ysgol Plasmarl, yr oedd angen mawr am hyn yn y gymuned hon.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 / 7 | 86% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 5 / 7 | 71% |
| Y Cyngor | 15 / 17 | 88% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 / 7 | 86% |
| Panel Llywodraethwyr yr ALl | 5 / 8 | 63% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Lleoedd | 2 / 4 | 50% |
| Pwyllgor Cynllunio | 4 / 6 | 67% |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 5 / 5 | 100% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Gwasanaethau | 3 / 3 | 100% |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 0 / 2 | 0% |
| **CYFFREDINOL** | **51 / 66** | **77%** |

| | | |
|---|---|---|
| Paneli Ymchwilio Craffu | | |
| Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol | 0 / 1 | 0% |
| Diwylliant Corfforaethol | 5 / 7 | 71% |
| Strydlun | 3 / 3 | 100% |
| Twristiaeth | 0 / 1 | 0% |
| **CYFFREDINOL** | **8 / 12** | **67%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

- Cadeirydd yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy, sydd bellach wedi'i ymgorffori yn y Pwyllgor Cynllunio newydd.
- Aelod o Bwyllgor Awdurdod Porthladd Prydain a Chyd-bwyllgor De-orllewin Cymru ar gyfer rheoli gwastraff.

- Cefais fy mhenodi i'r Pwyllgor Archifau ar gyfer rhanbarth Abertawe/Castell-nedd.
- Euthum i 3 chyfarfod PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) yn fy ward bob mis/bob yn ail fis.
- Euthum i gyfarfodydd llywodraethwyr ysgolion yn dymhorol (neu weithiau'n amlach) yn Ysgol Gynradd Brynhyfryd ac Ysgol Gyfun Pentrehafod.
- Euthum i'r ganolfan gymunedol/grwpiau cyfeillion yn y ward.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Roeddwn yn rhan o gefnogi etholwyr i drefnu i ffordd ddosbarthu newydd gael ei chyflwyno yn y ward. Roedd angen mawr am hyn i leihau pryderon am dagfeydd traffig a rhoddodd y cyngor gymeradwyaeth ar gyfer y prosiect hwn.

Cynhaliais gyfarfodydd safle â swyddogion o'r Adran Draffig i ystyried rhoi rhagor o fesurau diogelwch ffyrdd ar waith yn y ward.

Gweithiais i drefnu mannau i'r anabl i'r etholwyr amrywiol a wnaeth gais amdanynt.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
12/03/2015 - Rôl Cynghorwyr mewn Cynllunio: Priodoldeb ac Arfer Da
13/10/2014 - Diogelu
05/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
23/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl y rheolwr data)

Ar ben hyn, roeddwn yn arfer gweithio i'r awdurdod am 28 mlynedd lle roeddwn hefyd yn gynrychiolydd undeb llafur. Felly, magais ddealltwriaeth dda o wasanaethau amrywiol y cyngor sydd ar gael.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf bob amser yn barod i wrando ar broblemau neu bryderon pobl – mae hyn yn bwysig iawn ac rwyf bob amser yn gwneud fy ngorau glas i gynrychioli etholaeth y ward.

Rwy'n sicrhau y gall pobl gysylltu â fi – dyna'r ymrwymiad rwy'n ei roi i bawb sy'n byw yn Ward Etholiadol Glandŵr. Fe wnaethoch roi'ch cefnogaeth i mi eich cynrychioli chi fel un o'ch Cynghorwyr a byddaf bob amser yn ymdrechu i wneud fy ngorau glas i bob un ohonoch.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 23.04.15 |